



Case Study

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru (YFC Cymru): Gwella – Mewnwelediadau o Hyfforddiant PIWS



- **Dirpwyedig:** Carys Storer Jones | Swyddog Marchnata a Chyfathrebu
- **Lleoliad:** Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, Llanfair-ym-Muallt LD2 3SY
- **Cwrs:** Cwrs Hyfforddi 4-diwrnod Pencampwr PIWS
- **Dyddiad:** 26/02/2025

Cwrs Hyfforddi 4-diwrnod Pencampwr

Cefndir

Mynychodd Carys Storer Jones, Swyddog Marchnata a Chyfathrebu YFC Cymru, y cwrs hyfforddi PIWS a oedd yn canolbwyntio ar hygyrchedd digwyddiadau. Mae YFC Cymru yn fudiad ieuenctid gwirfoddol sy'n gweithredu'n ddwyieithog ledled cefn gwlad Cymru ac yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion rhwng 10 a 28 oed, o siarad cyhoeddus i Eisteddfodau, actio, canu, a llawer mwy drwy gydol y flwyddyn. Mae Carys yn gyfrifol am y cyfryngau cymdeithasol, diweddariadau gwefan, a chefnogi digwyddiadau a drefnir gan aelodau.

Cymhelliant dros Fynychu'r Hyfforddiant

Roedd cymhelliant Carys i fynychu'r hyfforddiant yn deillio o'i rôl, sy'n cynnwys helpu i drefnu nifer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Ei nod yw sicrhau bod y digwyddiadau hyn yn hygyrch ac yn gynhwysol i gynifer o aelodau â phosibl.

Prif Gasgliadau o'r Hyfforddiant

Un o brif gyfrifoldebau Carys yw rhedeg y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, ac felly un o'r elfennau mwyaf gwerthfawr o'r hyfforddiant iddi oedd dysgu am hygyrchedd gwefannau, awgrymiadau gorau ar gyfer strategaethau marchnata effeithiol, ac optimeiddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Gan fod YFC Cymru yn dibynnu'n helaeth ar gyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â'i gynulleidfa ifanc, mae'r mewnwelediadau a gafodd yn ystod yr hyfforddiant wedi gwella'n sylweddol ei gallu i greu cynnwys digidol hygyrch.

Effaith ar Ymagwedd tuag at Hygyrchedd

Diolch i PIWS, mae'r wybodaeth a gafwyd wedi galluogi Carys i ddefnyddio pecyn cymorth ymarferol i drawsnewid ymagwedd y sefydliad at hygyrchedd yn gadarnhaol. Bydd hyn yn galluogi YFC Cymru i weithredu arferion mwy cynhwysol ar lefel y sefydliad a'r digwyddiadau, gan wasanaethu aelodau presennol, cyn-aelodau, a chefnogwyr yn fwy effeithiol.

Meysydd a Nodwyd ar gyfer Gwelliant

Nodwyd sawl gwelliant ymarferol yn ystod yr hyfforddiant:

- **Mynediad i Aelodau ag Anableddau Corfforol a Chudd:** Gwella Canolfan YFC Cymru trwy gynnwys nodweddion hygrychedd fel mannau tawel a theithiau cynefino.
- **Amseru Strategol:** Defnyddio prosiectau adnewyddu sydd ar y gweill yng Nghanolfan YFC Cymru i integreiddio mesurau hygrychedd newydd yn y cynlluniau adeiladu a llawr. Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r cwrs, a chymryd mesuriadau hygrych penodol i ystyriaeth cyn adeiladu'r adeilad newydd.

Gwerth Cydweithio o fewn y Diwydiant

Canfu Carys fudd sylweddol o ryngweithio â gweithwyr proffesiynol eraill yn ystod y gweithdy. Dysgodd lawer o sefydliadau mwy, gan roi mewnwelediad iddi i heriau hygrychedd cyffredin a'u hatebion, gan danlinellu pwysigrwyd cydweithio â chydweithwyr.

Gweithredu Strategaeth Hygrychedd

Cadarnhaodd Carys fwriad YFC Cymru i weithredu strategaeth hygrychedd gynhwysfawr, gan gynnwys:

- **Tudalen We Arbennig ar Hygrychedd:** Creu tudalen we sydd wedi'i neilltuo i hygrychedd i roi gwybodaeth i fynychwyr am fesurau hygrychedd newydd a phresennol.
- **Cyfathrebu Parhaus:** Sicrhau sianeli agored gyda darparwyr hyfforddiant (fel PIWS) i gael cyngor parhaus ar weithredu hygrychedd.

Buddion Uniongyrchol ac Effeithiau Disgwyliedig

Er nad yw'r canlyniadau uniongyrchol wedi'u gwireddu eto, mae Carys yn rhagweld effeithiau cadarnhaol sylweddol yn sgil y camau a gynlluniwyd, gan gynnwys:

- Gwell ymgysylltiad ac ymrwymiad aelodau drwy gyfathrebu clir am hygrychedd.
- Perception cadarnhaol o YFC Cymru fel sefydliad cynhwysol ac egniol.

Anghenion Cefnogi a Hyfforddi Pellach

Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, nododd Carys yr angen am hyfforddiant pellach, megis:

- **Hyfforddiant ar Lefel Clwb a Sir:** Ehangu hyfforddiant hygrychedd i lefelau clwb a sir i sicrhau ymwybyddiaeth ac arferion unffurf ar draws holl haenau'r sefydliad.
- **Fformatau Hyfforddi Hyblyg:** Cynnig cyflwyniadau wedi'u recordio ymlaen llaw am hygrychedd, neu fodiwlau hyfforddi hunan-gyflym wedi'u teilwra ar gyfer gwirfoddolwyr, gan gynnwys arweinwyr clybiau a threfnwyr sir, i gyd-fynd â'u hymrwymadau gwirfoddol.

Casgliad

Mae cymryd rhan yn yr hyfforddiant hygrychedd PIWS wedi gwella'n sylweddol persbectif a gallu ymarferol Carys ynghylch hygrychedd digwyddiadau yn YFC Cymru. Darparodd yr hyfforddiant gysylltiadau gwerthfawr â chydweithwyr, nododd welliannau ymarferol, ac amlygwyd yr angen am hyfforddiant eang ar draws y sefydliad. Mae Carys wedi ymrwymo i integreiddio hygrychedd i strategaeth y sefydliad, gan sicrhau amgylchedd cynhwysol i bob aelod.